FFRAMWAITH CYMHWYSEDD

# Jetio Dŵr



# Cefndir

Nododd yr adroddiad, Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel - Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân: Adroddiad Terfynol (Y Fonesig Judith Hackitt DBE FREng, Mai, 2018) fod gan y diwydiant:

***"Ymagwedd bresennol at gymhwysedd a oedd yn dameidiog, yn cwmpasu ystod o ddisgyblaethau a fframweithiau cymhwysedd gwahanol hyd yn oed o fewn un ddisgyblaeth a heb gyfeirio at ddisgyblaethau rhyngweithiol eraill".***[1]

Mae'r Ddeddf Diogelwch Adeiladu (a gyhoeddwyd ar 25 Gorffennaf 2022), ynghyd â Rheoliadau Adeiladu ac ati (Diwygio) (Lloegr) Rheoliadau 2023, wedi cyflwyno cyfundrefn reoleiddio newydd sy'n diffinio cymhwysedd fel bod â'r **sgiliau**, **y wybodaeth**, **y profiad a'r ymddygiadau priodol (SKEB)**. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn sy'n cyflawni unrhyw waith dylunio, adeiladu neu adnewyddu fod yn gymwys i ymgymryd â'r rôl y maent wedi'u penodi iddi.



[1] Building a Safer Future - Independent Review of Building Regulations and Fire Safety: Final Report (Dame Judith Hackitt DBE FREng, May, 2018, Summary 5.2, p.75)

# Grŵp Llwyio Cymhwysedd y Diwydiant (ICSG)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SLG 1 Syrfewyr Meintiau | SLG 2 Ymgynghoriaeth Dylunio | SLG 3 Peirianneg | SLG 4 Profi, Asesu ac Ardystio Cynnyrch Adeiladu | SLG 5 Gweithgynhyrchu Cynnyrch Adeiladu |
| SLG 6 Masnachwyr a Dosbarthu Cynnyrch Adeiladu | SLG 7 Rheoli Prosiectau a Rhaglenni | SLG 8 Masnachol a Chaffael | SLG 9 Darparu Rheolaeth Adeiladu | SLG 10 Rheolaeth Gosod a Chynnal a Chadw |
| SLG 10.1 Amlenni | SLG 10.2 Gwasanaethau Peirianneg | SLG 10.3 Tu Mewn | SLG 10.4 Sifils | SLG 10.5 Strwythurau |
| SLG 11 Gweithrediadau a Rheoli Adeiladau ac Amgylchedd Adeiledig | SLG 12 Amddiffyniad Goddefol Rhag Tân | SLG 13 Amddiffyniad Gweithredol Rhag Tân | SLG 14 Amlenni | SLG 15 Cleientiaid |



# Gweithgorau ICSG

Sefydlwyd y Grŵp Llywio Cymhwysedd (CSG) i fynd i'r afael â diffygion cymhwysedd a nodwyd yn Adolygiad Hackitt 2018. Roedd adroddiad y CSG Gosod y Bar – cyfundrefn gymhwysedd newydd ar gyfer adeiladu dyfodol diogelwch (Hydref 2020) yn cynnwys argymhellion ar gyfer Gosodwyr (tudalennau 54–60).




Ym mis Rhagfyr 2024, sefydlwyd y Grŵp Llywio Cymhwysedd Diwydiant (ICSG) yn ffurfiol fel grŵp gwaith o dan y Pwyllgor Cymhwysedd Diwydiant, un o dri phwyllgor a sefydlwyd o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau, sy'n adrodd i'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau. Pwrpas yr ICSG a'i Grwpiau Arweiniol Sector (SLGs) yw galluogi'r diwydiant i gael mynediad at gymwysterau priodol, fel y gallant gyfrannu'n ddiogel at greu ac i ddefnyddio amgylcheddau adeiledig, a dangos eu cymhwysedd i eraill. Mae hyn yn cynnwys datblygu fframweithiau cymhwysedd y cytunwyd arnynt yn y diwydiant, y gellir eu defnyddio i fapio pob hyfforddiant a chymhwyster er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sector.

Mae Grŵp Arweiniol Sector 10 (SLG10) yn yr ICSG yn cynrychioli Gosod a Chynnal a Chadw ac yn arwain ar fframweithiau cymhwysedd a heriau eraill sy'n ymwneud â chymhwysedd o fewn y meysydd hyn.

Ers cyhoeddi Gosod y Bar – cyfundrefn gymhwysedd newydd ar gyfer adeiladu dyfodol diogelwch (Hydref 2020, t.54, Argymhellion 243 a 244), roedd y prif ffocws ar Adeiladau Mwyaf Peryglus (HRBs) wrth ddatblygu'r fframweithiau cymhwysedd peilot. Nododd y grwpiau gwaith fod ychydig iawn o wahaniaeth rhwng y gwaith a wneir mewn HRB ac adeilad nad yw'n HRB. O ganlyniad, mae SLG10 wedi canolbwyntio ar gyflwyno'r argymhellion y dylid mabwysiadu fframwaith ar gyfer pob rôl gosodwr sy'n gweithio ar adeiladau o fewn cwmpas.

Yn 2024, ehangodd SLG10 ei raglen beilot gychwynnol i'r fformat ar y dudalen nesaf, gan grwpio'r gwaith yn bum llif gwaith: Amlenni, Gwasanaethau Peirianneg, Tu Mewn, Sifils a Strwythurau.

Mae CITB yn cefnogi'r diwydiant gyda chreu'r Fframweithiau Cymhwysedd ar gyfer pob rôl o fewn ei orchymyn cwmpas. Mae CITB yn helpu i hwyluso gwaith y Grŵp Sector, safoni'r dull gweithredu, rhannu arferion gorau ac alinio swyddogaethau cyffredin.

Mae CITB hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gweithgareddau gweithredu, gan gefnogi cynllunio ar gyfer y dyfodol, ac arwain ar ddatblygiad unrhyw gynhyrchion allweddol i gefnogi'r gofynion Cymhwysedd newydd a ddiffiniwyd.

# Diogelwch Tân mewn Adeiladau

Mae Gosod y Bar – cyfundrefn gymhwysedd newydd ar gyfer adeiladu dyfodol diogelwch (Hydref, 2020, t.54, Argymhellion 243), hefyd yn mynnu

"Dylai pob gosodwr feddu ar wybodaeth graidd am ddiogelwch tân mewn adeiladau – hyfforddiant i'w safoni a'i wneud yn orfodol."

Ymgynghorwyd â grŵp o randdeiliaid yn y diwydiant ynghylch cynnwys cwrs hyfforddiant Diogelwch Tân mewn Adeiladau i'w gwblhau gan bob gosodwr. Mae CITB wedi ariannu creu'r cwrs, ac mae bellach yn adnodd hyfforddiant am ddim sydd ar gael ar blatfform eDdysgu gwefan CITB.

Cwrs Hyfforddiant Ar-lein Am Ddim Diogelwch Tân mewn Adeiladau



# Fframweithiau Cymhwysedd

Ysgrifennwyd y Fframweithiau Cymhwysedd yn unol â BS 8670-1:2024 Fframweithiau Cymhwysedd ar gyfer diogelwch adeiladau – Meini prawf craidd, Cod Ymarfer. (cyhoeddwyd ym Mai 2024, t.10, Cymhwysedd a Fframweithiau Cymhwysedd, 0.3.2 i 0.3.5), sy'n amlinellu prif gydrannau Fframwaith Cymhwysedd.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd yn cynnwys y cydrannau canlynol:

1. **Llwybrau a Argymhellir i Gymhwysedd:**
   Darllenir y Llwybr i Gymhwysedd o'r gwaelod i'r brig. Mae'n cynnwys 3 llwybr: un ar gyfer rhywun newydd i'r maes, un ar gyfer rhywun sydd â rhywfaint o brofiad, ac un ar gyfer gweithiwr profiadol sydd â llawer mwy o brofiad. Mae'n nodi'r llwybrau cydnabyddedig tuag at gyflawni cymhwysedd.
2. **Map Swyddogaethol:**
   Mae hwn yn dangos sut mae rôl benodol ym maes adeiladu yn cael ei rhannu'n swyddogaethau gwahanol: Cymwyseddau Craidd Adeiladu, Cymwyseddau Craidd Crefft, a Chymwyseddau Penodol i Grefft.
3. **Cymwyseddau Craidd Adeiladu**
   Y rhain yw'r cymwyseddau sylfaenol ar gyfer y rhan fwyaf o rolau ym maes adeiladu. Cymwyseddau megis Iechyd a Diogelwch neu Drin â Llaw sy'n galluogi pawb i weithio'n ddiogel ar y safle.
   ***Sylwer: Mae'r cymwyseddau craidd adeiladu wedi cael eu hadolygu o ran fformat ac ar hyn o bryd maent yn fersiynau drafft sy'n disgwyl adolygiad ar y cyd gan y diwydiant.*
4. **Cymwyseddau Craidd Crefft:**
   Mae'r rhain yn cael eu rhannu ar draws sawl rôl o fewn teulu galwedigaethol. Enghraifft o hyn fyddai Ymarferion Gwaith Diogel, a ddefnyddir gan osodwyr llechi to yn ogystal â gosodwyr casglwyr solar, gan eu bod ill dau yn gweithio yn yr un amgylchedd.
5. **Cymwyseddau Penodol i Grefft:**
   Mae'r rhain yn cynnwys sawl swyddogaeth benodol, ac wrth eu cyfuno, maent yn diffinio'r gofynion cymhwysedd ar gyfer rôl. Defnyddiwch y tabiau Gwybodaeth a Sgil i ddangos/cuddio'r manylion o fewn pob swyddogaeth.

# Diffiniadau Allweddol Fframwaith Cymhwysedd

Mae BS8670-1:2024 yn diffinio elfennau allweddol Fframweithiau Cymhwysedd fel a ganlyn:

**Cymhwysedd:** cymhwyso sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiad i gyflawni canlyniad diffiniedig

**Sgiliau:** y gallu i gyflawni gweithgaredd neu dasg yn gyson â chanlyniad penodol a fwriadwyd

**Gwybodaeth:** cymathu ffeithiau, damcaniaethau ac arferion mewn perthynas â rôl, swyddogaeth, gweithgaredd neu dasg benodol

**Ymddygiadau:** pethau arsylladwy y mae unigolyn yn eu gwneud neu nad yw'n eu gwneud

**Dilysu:** proses ffurfiol o asesu cymhwysedd unigolyn yn erbyn fframwaith cymhwysedd penodol i'r sector

**Ail-ddilysu:** proses ffurfiol o ailasesu cymhwysedd unigolyn yn erbyn fframwaith penodol i'r sector yn rheolaidd i wirio bod cymhwysedd wedi'i gynnal

# Trosolwg Sector

## Y Broses Ddatblygu

Mae datblygiad Fframwaith Cymhwysedd Jetio Dŵr yn anelu at sefydlu dull strwythuredig a safonol ar gyfer asesu a sicrhau cymwyseddau gweithredwyr sy'n gweithio ym maes jetio dŵr. Mae'r fframwaith yn ceisio ymateb i'r galw cynyddol am osodiadau o ansawdd uchel ac yn ddiogel, gan hyrwyddo datblygiad gweithwyr medrus sy'n bodloni safonau'r diwydiant.

Mae'r fframwaith yn amlinellu'r cymwyseddau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer jetio dŵr, gan gynnwys gosod, iechyd a diogelwch, tirlun hyfforddiant a chymwysterau, a gofynion ail-ddilysu. Fe'i cynlluniwyd i arwain rhaglenni hyfforddi, cymwysterau, cyflogwyr, gweithwyr, a chyrff rheoleiddio ar draws y diwydiant. Nod y model cymhwysedd hwn yw lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â dulliau gosod gwael, gwella perfformiad adeiladau, a sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

### Mae cydrannau allweddol y fframwaith yn cynnwys:

1. **Llwybrau i Gymhwysedd:** Nodi'r llwybrau cydnabyddedig i gyflawni cymhwysedd.
2. **Lefelau Cymhwysedd:** Diffiniadau clir o'r Sgiliau, Gwybodaeth, Profiad ac Ymddygiadau sy'n ofynnol ar gyfer pob swyddogaeth o jetio dŵr..
3. **Sgiliau Technegol:** Dealltwriaeth gynhwysfawr o ddeunyddiau, technegau ac offer a ddefnyddir yn ystod jetio dŵr.
4. **Iechyd a Diogelwch:** Pwyslais ar safonau diogelwch i leihau damweiniau a sicrhau amgylcheddau gwaith diogel.
5. **Cynaliadwyedd ac Effeithlonrwydd:** Ymgorffori arferion gorau ar gyfer effeithlonrwydd ynni, cynaliadwyedd a pherfformiad hirdymor o jetio dŵr.

Bwriedir i'r fframwaith gael ei ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol y diwydiant, darparwyr hyfforddiant, a chyrff rheoleiddio i greu dull cyson ac atebol o gymhwysedd mewn jetio dŵr. Drwy sicrhau bod gosodwyr yn bodloni gofynion y fframwaith, gall y diwydiant wella ansawdd prosiectau lloriau mynediad wedi'u codi a chefnogi cydymffurfiaeth reoleiddiol.

### Y Broses Ddatblygu

Cynhaliwyd y broses ddatblygu drwy ymgynghoriad helaeth a chydweithio trwy gyfres o gyfarfodydd grŵp gwaith gyda SLG10 Gosod a Chynnal a Chadw (gynt WG2 Gosodwyr), cynrychiolaeth o ffederasiynau/cymdeithasau gan gynnwys Cymdeithas Jetio Dŵr, cyflogwyr a CITB. Roedd arolwg ar-lein a gweminar ar gael hefyd i gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd ac i gynnig cyfle i'w adolygu, rhoi adborth, cefnogi a dilysu'r datblygiad.

Cynhaliwyd dadansoddiad trylwyr o'r cymwyseddau presennol, safonau, hyfforddiant, cymwysterau, arferion gwaith cyfredol a'r materion a'r heriau hysbys er mwyn llunio'r fframwaith ac adnabod y camau gweithredu yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Cynhaliwyd y gweithgorau mewn modd cydweithredol, agored a chyfeillgar iawn gyda phawb a gymerodd ran yn cael y cyfle i gyfrannu at y trafodaethau a'r gwaith a wneir mewn perthynas â'r SKEB.

# Trosolwg Sector

## Canlyniadau a Chanfyddiadau

**Mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u nodi a byddant yn cael sylw fel rhan o gynllun gweithredu:**

- Cwblhau'r adolygiad o'r dogfennau NOS presennol ar gyfer jetio dŵr fel eu bod yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cymhwysedd
- Datblygu cyrsiau hyfforddiant byr
- Cyflwyno hyfforddiant Diogelwch Tân mewn Adeiladau fel gofyniad cymhwysedd gorfodol

Defnyddiwyd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) i ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd. Aeth yr NOS a'r S/NVQ dilynol trwy adolygiad a diweddariad yn 2024. Gyda'r aliniad hwn â'r NOS, mae wedi'i nodi bod y safonau a'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn dal i fod yn addas at y diben.

Mae'r gweithgor hefyd wedi nodi'r gofynion Profiad ac Ymddygiad. Pan gânt eu haddasu naill ai'n unigol neu drwy sefydliad, byddant yn hyrwyddo diwylliant o hunanddatblygiad, cyfrifoldeb ac yn atgyfnerthu gwerthoedd cadarnhaol.



# Llwybr i Gymhwysedd

- Angen Datblygu (red)
- Wedi Datblygu – Angen Adolygu. (amber)
- Wedi Datblygu (green)

**AIL-DDILYSU CYMHWYSEDD**

- **Ail-ddilysiad o Brawf HS&E Arbenigol**

**ADDYSG LEFEL UWCH**

- Cerdyn CSCS Aur - Goruchwyliwr
- Prawf HS&E Goruchwyliwr Gwaith Galwedigaethol ac Arbenigwr Lefel 3

**HYFFORDDIANT CYFNOD BYR / HYFFORDDIANT GWEITHGYNHYRCHWYR**

Hyfforddiant Cyfnod Byr:

- Paratoi Draeniau a Charthffosydd ac Arwynebau
- Golchi â Phwysau (Pressure washing)
- Tiwb a Phibell
- Ymwybyddiaeth Diogelwch (CNC)
- Chwalu â Dŵr (Hydro Demoltion)
- Ymwybyddiaeth Diogelwch
- Draeniau a Charthffosydd
- Paratoi Arwynebau

Hyfforddiant Gweithgynhyrchwyr

**CYMHWYSEDD SYLFAENOL AC AIL-DDILYSIAD**

- Ail-ddilysiad o Brawf Gweithredol HS&E CSCS
- CSCS GLAS – Cerdyn CSCS Glas - Gweithiwr Medrus

**LLWYBR I GYMHWYSEDD SYLFAENOL**

- Dim SVQ<br>Dim Prentisiaeth mewn unrhyw genedl (red)
- NVQ Lefel 2 - Gwasanaethau Diwydiannol Cysylltiedig – Jetio Dŵr<br>Opsiwn 1: Glanhau a gwaredu dyddodion<br>Opsiwn 2: Torri deunyddiau<br>Opsiwn 3: Chwalu â Dŵr (Hydrodemolition)<br>CSCS Coch (Hyfforddai)
- NVQ Lefel 2 - Gwasanaethau Diwydiannol Cysylltiedig - Jetio Dŵr (OSAT)<br>Opsiwn 1: Glanhau a gwaredu dyddodion<br>Opsiwn 2: Torri deunyddiau<br>Opsiwn 3: Chwalu â Dŵr (Hydrodemolition)<br>CSCS (Gweithiwr Profiadol)
- Opsiwn 1: Tiwb a Phibell, Opsiwn 2: Paratoi Arwyneb, Opsiwn 3: Chwalu â Dŵr (Hydrodemolition) (SDTS) (amber)
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch WJA (SDTS) (amber)

**MYNEDIAD AT SAFLE**

| | | |
|---|---|---|
| Diogelwch Tân mewn Adeiladau | Diogelwch Tân mewn Adeiladau | Diogelwch Tân mewn Adeiladau |
| Prawf HS&E | Prawf HS&E | Prawf HS&E |

**YMGEISYDD**

| | | |
|---|---|---|
| Newydd-ddyfodiad | Wedi cael rhywfaint o hyfforddiant | Gweithiwr Profiadol – yn ymwneud â disgyblaeth / arbenigedd |
| Lefel isel iawn o SKEB. E.e. prentis, Lefelau T | Rhywfaint o SKEB. E.e. cwrs AB | Y rhan fwyaf o SKEB |

# Map Swyddogaethol

## Cymwyseddau Craidd Adeiladu

| MAP SWYDDOGAETHOL GWEITHGAREDDAU | | JETIO DŴR | | |
|---|---|---|---|---|
| | | LLWYBR CYMHWYSEDD ARFAETHEDIG TYNNU DEUNYDDIAU | LLWYBR CYMHWYSEDD ARFAETHEDIG TORRI A DARNIO | LLWYBR CYMHWYSEDD ARFAETHEDIG CHWALU Â DŴR (HYDRODEMOLITION) |
| **CYMWYSEDDAU CRAIDD ADEILADU** | | | | |
| **CC001** | Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle | ✓ | ✓ | ✓ |
| **CC002** | Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol yn y gweithle | ✓ | ✓ | ✓ |
| **CC003** | Symud, trin a storio adnoddau | ✓ | ✓ | ✓ |

# Map Swyddogaethol

## Cymwyseddau Penodol i Grefft

| MAP SWYDDOGAETHOL GWEITHGAREDDAU | | JETIO DŴR | | | SAFONAU HYFFORDDIANT CYFNOD BYR | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | LLWYBR CYMHWYSEDD ARFAETHEDIG TYNNU DEUNYDDIAU | LLWYBR CYMHWYSEDD ARFAETHEDIG TORRI A DARNIO | LLWYBR CYMHWYSEDD ARFAETHEDIG CHWALU Â DŴR (HYDRODEMOLITION) | HYFFORDDIANT | AIL-DDILYSU |
| **CYMWYSEDDAU PENODOL I GREFFT** | | | | | | |
| **WJ001** | Tynnu deunyddiau a dyddodion trwy jetio dŵr | ✓ | | | Ymwybyddiaeth Diogelwch Jetio Dŵr Tiwb a Phibell | Adnewyddu hyfforddiant a cherdyn WJA |
| **WJ002** | Torri deunyddiau'n oer trwy jetio dŵr | | ✓ | | Ymwybyddiaeth Diogelwch Jetio Dŵr Paratoi Arwynebau | Adnewyddu hyfforddiant a cherdyn WJA |
| **WJ003** | Torri a thynnu deunyddiau trwy chwalu â dŵr | | | ✓ | Ymwybyddiaeth Diogelwch Jetio Dŵr Chwalu â dŵr (hydrodemolition) | Adnewyddu hyfforddiant a cherdyn WJA |

# Cymwyseddau Craidd Adeiladu

## Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol (CC001)

**Swyddogaeth:** Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol

**Cyfeiriadau:** COSVR641 Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaeth hon, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith, yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ofynion statudol cyfredol perthnasol a chanllawiau swyddogol; cyfrifoldebau, i chi'ch hun ac eraill, sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle; ymddygiad personol a diogelwch yn y gweithle.

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

#### Iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle

Cydymffurfio â holl ofynion deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle bob amser

Osgoi risg drwy gydymffurfio â gwybodaeth a roddir yn ymwneud â'r canlynol:

- cyfnod sefydlu
- briffiau
- defnyddio hyfforddiant blaenorol (defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch)

Cydymffurfio â gofynion statudol a/neu hysbysiadau diogelwch ac arwyddion rhybuddio a ddangosir yn y gweithle neu ar offer

#### Adnabod peryglon

Adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithle a'u hadrodd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

Adnabod peryglon a grëwyd gan amgylchiadau sy'n newid, nad ydynt wedi'u rheoli o'r blaen, a'u hadrodd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

#### Polisïau a gweithdrefnau sefydliadol

Derbyn cyfrifoldeb am, a chydymffurfio â, pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles

Dangos ymddygiad personol sy'n dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n ymwneud â'r canlynol:

- ystyried eraill
- dehongli cyfarwyddiadau a roddir i gynnal systemau gwaith diogel
- cyfrannu at drafodaethau (cynnig a rhoi adborth)
- cynnal arferion gwaith o safon
- cyfrannu at gynnal a chadw cyfleusterau lles y gweithle
- storio a defnyddio offer a ddarperir i gadw pobl yn ddiogel
- gwaredu gwastraff a/neu eitemau y gellir eu bwyta, yfed neu ddefnyddio

#### Trefniadau diogelwch

Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cynnal diogelwch y gweithle a'u cefnogi:

- yn ystod y diwrnod gwaith
- ar ôl cwblhau gwaith y diwrnod
- gan bersonél heb awdurdod (gweithredwyr eraill a/neu'r cyhoedd yn gyffredinol)
- rhag lladrad

# Cymwyseddau Craidd Adeiladu

## Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol (CC002)

**Swyddogaeth:** Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol

**Cyfeiriadau:** COSVR642 Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol yn y gweithle

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaeth hon, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith, yn ymwneud â chyfathrebu cynhyrchiol â rheolwyr llinell, cydweithwyr a chwsmeriaid, dehongli gwybodaeth, cynllunio a chynnal arferion gwaith cynhyrchiol, gweithio gydag eraill neu fel unigolyn.

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

#### Cyfathrebu ag eraill

Cyfathrebu â rheolwyr llinell, cydweithwyr, neu gwsmeriaid i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn gynhyrchiol

Parchu anghenion eraill wrth gyfathrebu

#### Dilyn gweithdrefnau

Dehongli a dilyn gweithdrefnau sefydliadol a defnyddio adnoddau priodol i gynllunio dilyniant y gwaith er mwyn cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chynnal cofnodion

Cwblhau dogfennaeth yn ôl gofynion y sefydliad

#### Perthnasoedd gwaith

Cynnal perthnasoedd gwaith da

Gweithio'n gynhyrchiol gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr, cwsmeriaid, neu bobl eraill

Cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

# Cymwyseddau Craidd Adeiladu

## Symud, trin a storio adnoddau (CC003)

**Swyddogaeth:** Symud, trin a storio adnoddau

**Cyfeiriadau:** COSVR643 Symud, trin a storio adnoddau

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaeth hon, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith, yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel ac iach, dewis cymhorthion neu offer i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol a symud, trin a storio adnoddau galwedigaethol i gynnal cyflwr defnyddiol.

SGILIAU | GWYBODAETH | >

### Rhaid i chi allu:

#### Dehongli gwybodaeth

Dehongli'r wybodaeth i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol, a defnyddio a storio cymhorthion ac offer codi ar gyfer y canlynol:

- technegol
- cynnyrch a rheoleiddiol
- llafar
- ysgrifenedig
- cyflwyniad graffigol

#### Arferion gwaith diogel

Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau swyddogol i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol a chynnal arferion gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gwaith
- defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch
- defnydd diogel o gymhorthion codi
- diogelu'r amgylchedd

#### Dewis adnoddau

Dewis yr adnoddau gofynnol sy'n gysylltiedig â symud, trin neu storio:

- cymhorthion codi a thrin
- cynhwysydd(au)
- systemau trwsio, dal a diogelu

#### Lleihau'r risg o ddifrod

Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal gyfagos drwy:

- amddiffyn yr adnoddau galwedigaethol a'u hardal gyfagos rhag difrod
- cynnal ardal waith ddiogel, clir a thaclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

#### Cydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol

Cydymffurfio â gwybodaeth y contract i symud, trin neu storio adnoddau'n effeithlon i'r fanyleb ofynnol drwy:

- Dangos sgiliau gwaith i:
  - symud
  - lleoli
  - storio
  - diogelu
  - defnyddio cymhorthion codi a thechnegau codi cinetig
- Symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol i fodloni gwybodaeth am gynnyrch a gofynion sefydliadol sy'n ymwneud ag o leiaf dri o'r canlynol:
  - deunydd ar ffurf dalen
  - deunydd wedi'i fagio neu ei lapio
  - deunydd rhydd
  - deunydd bregus
  - offer a chyfarpar
  - hylifau
  - cydrannau

#### Amser a neilltuwyd

Cwblhau'r gwaith o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu gleient

# Cymwyseddau Craidd Crefft

## Dehongli Gwybodaeth

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

Dehongli a defnyddio'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd ar gyfer y canlynol:

- lluniadau
- manylebau
- amserlenni
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- codau ymarfer
- gwybodaeth gweithgynhyrchwyr

# Cymwyseddau Craidd Crefft

## Arferion gwaith diogel

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau swyddogol i gyflawni'r gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gwaith
- defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch
- defnydd, storio a thrin offer a deunyddiau yn ddiogel
- defnydd a chynnal a chadw offer yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd

# Cymwyseddau Craidd Crefft

## Dewis adnoddau

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

gwirio cydnawsedd y cydrannau, y cynulliad, a bod y drefn weithio yn cydymffurfio â'r fanyleb ar gyfer:

- deunyddiau
- cydrannau a gosodiadau
- offer a chyfarpar

# Cymwyseddau Craidd Crefft

## Lleihau'r risg o ddifrod

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

cydymffurfio â gweithdrefnau'r cwmni i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r amgylchedd drwy wneud y canlynol:

- diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod
- cadw'r ardal waith yn ddiogel, yn glir ac yn daclus
- gwaredu gwastraff yn unol â rheolau'r safle a'r ddeddfwriaeth gyfredol

# Cymwyseddau Craidd Crefft

## Dull o weithio

**Disgrifiad:** Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel, cynhwysol a chynhyrchiol wrth weithio'n annibynnol a gydag eraill

# Cymwyseddau Penodol i Grefft

## Tynnu deunyddiau a dyddodion trwy jetio dŵr (WJ001)

**Swyddogaeth:** Tynnu deunyddiau a dyddodion trwy jetio dŵr

### SGILIAU

+

### GWYBODAETH

+

## Rhaid i chi allu:

dangos sgiliau gwaith i:

- jetio
- gwirio
- monitro a gwerthuso
- cysylltu, diogelu ac addasu
- cychwyn, stopio a rheoli

defnyddio'r offer cywir ar gyfer cysylltu pibellau a'r offer jetio dŵr ar gyfer y gweithgaredd

defnyddio'r lefel gywir o offer amddiffynnol ar gyfer y dasg gan gynnwys PPE

paratoi a chynnal rhag-wiriadau gan gynnwys rhediadau prawf i gyfarwyddiadau gwaith sy'n ymwneud â:

- codi rhwystrau ac arwyddion
- cysylltu pibellau
- offer jetio
- cyflenwad dŵr
- offer daearu

tynnu deunyddiau a dyddodion trwy weithredu a monitro offer jetio dŵr pwysedd uchel i gyfarwyddiadau gwaith

ar ôl cwblhau'r gwaith datgymalu a dadhalogi offer a gwneud yr ardal waith yn ddiogel trwy:

- tynnu rhwystrau ac arwyddion
- datgysylltu pibellau
- tynnu offer jetio
- datgysylltu cyflenwad dŵr
- tynnu gwastraff

# Cymwyseddau Penodol i Grefft

## Torri deunyddiau'n oer trwy jetio dŵr (WJ002)

**Swyddogaeth:** Torri deunyddiau'n oer trwy jetio dŵr

SGILIAU

GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

dangos sgiliau gwaith i:

- jetio
- gwirio
- monitro a gwerthuso
- cysylltu, diogelu ac addasu
- cychwyn, stopio a rheoli
- torri a darnio

defnyddio'r offer cywir ar gyfer cysylltu pibellau a'r offer jetio dŵr ar gyfer y gweithgaredd

defnyddio'r lefel gywir o offer amddiffynnol ar gyfer y dasg gan gynnwys PPE

paratoi a chynnal rhag-wiriadau gan gynnwys rhediadau prawf i gyfarwyddiadau gwaith sy'n ymwneud â:

- codi rhwystrau ac arwyddion
- cysylltu pibellau
- offer jetio
- cyflenwad dŵr
- offer daearu
- offer torri oer sgraffiniol â jet dŵr

gweithredu offer jetio dŵr i dorri deunyddiau'n oer gan ddefnyddio dŵr gyda sgraffinyddion

ar ôl cwblhau'r gwaith datgymalu a dadhalogi offer a gwneud yr ardal waith yn ddiogel trwy:

- tynnu rhwystrau ac arwyddion
- datgysylltu pibellau
- tynnu offer jetio
- datgysylltu cyflenwad dŵr
- tynnu gwastraff
- tynnu offer torri oer â jet dŵr

# Cymwyseddau Penodol i Grefft

## Torri a thynnu deunyddiau trwy chwalu â dŵr (hydrodemolition) (WJ003)

**Swyddogaeth:** Torri a thynnu deunyddiau trwy chwalu â dŵr (hydrodemolition)

SGILIAU | GWYBODAETH

### Rhaid i chi allu:

dangos sgiliau gwaith i:

- jetio
- gwirio
- monitro a gwerthuso
- cysylltu, diogelu ac addasu
- cychwyn, stopio a rheoli
- torri a darnio

defnyddio'r offer cywir ar gyfer cysylltu pibellau a'r offer jetio dŵr ar gyfer y gweithgaredd

defnyddio'r lefel gywir o offer amddiffynnol ar gyfer y dasg gan gynnwys PPE

paratoi a chynnal rhag-wiriadau gan gynnwys rhediadau prawf i gyfarwyddiadau gwaith sy'n ymwneud â:

- codi rhwystrau ac arwyddion
- cysylltu pibellau
- offer jetio
- cyflenwad dŵr
- offer daearu
- offer chwalu â dŵr

defnyddio gwn neu bicell jetio dŵr, neu offer awtomataidd

gweithredu offer jetio dŵr i dorri a darnio deunyddiau trwy chwalu â dŵr

ar ôl cwblhau'r gwaith datgymalu a dadhalogi offer a gwneud yr ardal waith yn ddiogel trwy:

- tynnu rhwystrau ac arwyddion
- datgysylltu pibellau
- tynnu offer jetio
- datgysylltu cyflenwad dŵr
- tynnu gwastraff
- tynnu offer chwalu â dŵr

# Profiad

SDTS Ymwybyddiaeth Diogelwch WJA a modiwl ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r arbenigedd asesiad ar y safle o weithredwr yn erbyn y cyrsiau hyfforddi byr bob tair blynedd



# Ymddygiadau

## Rhaid i chi allu dangos:

blaenoriaethu iechyd, diogelwch a'r amgylchedd

datblygu perthnasoedd gwaith da gan gydnabod dibyniaethau, defnyddio dulliau cydweithredol i optimeiddio llif gwaith a chynhyrchiant gyda goruchwyliaeth gyfyngedig, dangos parch at gydweithwyr

cymhwyso meddwl rhesymegol, defnyddio rhesymu clir a dilys wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymgymryd â'r cyfarwyddiadau gwaith

cymryd cyfrifoldeb, cwblhau eich gwaith eich hun i'r safonau ansawdd gofynnol a chael llygad am fanylion/cywirdeb

gweithio'n effeithiol, ymgymryd â gwaith mewn modd dibynadwy, taclus a chynhyrchiol

rheoli amser yn effeithiol, defnyddio eu hamser yn effeithiol i gwblhau gwaith yn ôl yr amserlen a bob amser yn cyrraedd, ac yn barod i weithio ar amser

addasadwy pan fo angen, addasu i newidiadau i gyfarwyddiadau gwaith neu amrywiadau mewn cyd-destunau ac amgylcheddau gweithle

# Tudalen Cyfeiriadau / Geirfa

Tudalen Fframweithiau Cymhwysedd a gynhelir gan y CLC:
Cymhwysedd – Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu

Manylion Strwythur Newydd yr ICSG: Grŵp Llywio Cymhwysedd Diwydiant – Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu

Tudalen Fframweithiau Cymhwysedd CITB:
Fframweithiau Cymhwysedd - CITB

Tudalennau Rhaglen Gymhwysedd BSI: Codi Cymhwysedd Ar Draws Yr Amgylchedd Adeiledig | BSI

## Diffiniadau

**SKEB** - Sgiliau, Gwybodaeth, Profiad ac Ymddygiadau (Skills, Knowledge, Experience and Behaviours)

**VQ** - Cymhwyster Galwedigaethol – NVQ a SVQ

**NOS** - Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

**COSVR XXX** - Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Penodol

**RQF** - Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (Lloegr)

**ICC** - Pwyllgor Cymhwysedd y Diwydiant

**CLC** - Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu

**CSG** - Grŵp Llywio Cymhwysedd

**ICSG** - Grŵp Llywio Cymhwysedd y Diwydiant (CSG gynt)

**CITB** - Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu

**SLG** - Grŵp Arweiniol Sector

